Datganiad i'r Wasg

24 Mawrth 2010

SICRHAU GWELLIANT TRWY ADOLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

CYHOEDDIR ARCHWILIAD DIRYBUDD AR HAP O LANWEITHDRA MEWN YSBYTY BWRDD ADDYSGU IECHYD POWYS HEDDIW

Adroddiad yn nodi safon dderbyniol o lanweithdra yn Ysbyty Ystradgynlais.

Mae'r adroddiad ar archwiliad dirybudd ar hap o lanweithdra a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn Ysbyty Ystradgynlais yn cael ei gyhoeddi heddiw, 24 Mawrth 2010.

Cynhaliwyd yr ymweliad fel rhan o raglen dreigl AGIC o archwiliadau dirybudd ar hap o lanweithdra.

Gwelwyd bod safon dderbyniol o lanweithdra ar y ward yr ymwelwyd â hi yn Ysbyty Ystradgynlais, ac aseswyd bod y glanhau domestig yn dda. Fodd bynnag, roedd nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw yn yr ystafell llieiniau a dillad gwely ac roedd yr ystafell ddomestig i'w gweld yn frwnt.

Roeddem ni wedi ymweld â'r ward ym mis Mehefin 2009 ac wedi codi pryderon ynglŷn â materion yn ymwneud â'r ystâd, glanweithdra a rheoli heintiau, a chyflwynwyd hysbysiad gweithredu di-oed. Er bod nifer o faterion wedi derbyn sylw, mae nifer o faterion yn ymwneud â'r ystâd yn parhau i fod heb dderbyn sylw, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried y ffordd orau ymlaen. Byddwn yn cynnal ymweliad dilynol arall maes o law.

Mae copi o'r adroddiad llawn, sy'n cynnwys canfyddiadau ac argymhellion, ar gael trwy fynd i wefan AGIC yn www.hiw.org.uk

Nodyn i Olygyddion

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

- Sefydlwyd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar 1 Ebrill 2004.

- Cyfrifoldeb craidd AGIC yw darparu sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd a diogelwch sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau, ac amlygu meysydd sydd angen eu gwella. Mae AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau arbennig lle y gallai fod methiannau systemig o ran darparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau gwelliannau a dysgu gwersi.

- I gael mwy o wybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ewch i'r wefan www.hiw.org.uk

Dylid cyfeirio ymholiadau gan y cyfryngau at Bethan Dix, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar: 02920 928871 neu anfonwch e-bost at Bethan.Dix@Wales.GSI.Gov.uk